

# Amseroedd aros ysbytai - Beth sydd angen i chi wybod?

Briff Ymchwil

Medi 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6320**

E-bost: [Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru](mailto:Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/ymchwil-y-senedd)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Ymchwil y Senedd**

# Amseroedd aros ysbytai - Beth sydd angen i chi wybod?

## Briff Ymchwil

Medi 2019

### **Awduron:**

Philippa Watkins

### **Trosolwg o'r papur:**

Wrth adrodd am amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru, mae'r ffocws ar amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer triniaeth ddewisiol ('elective') (wedi'i gynllunio). Mae'r briff hwn yn trafod rhai o'r cwestiynau cyffredin am y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

Mae briff arall - Dangosyddion perfformiad iechyd - yn rhoi canllaw cyflym ar y targedau a'r ffynonellau data cyfatebol ar gyfer prif ddangosyddion perfformio GIG Cymru. Mae'n cynnwys atgyfeirio at driniaeth, gwasanaethau diagnostig a therapi, amseroedd aros cancer, amser sy'n cael ei dreulio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ac amseroedd ymateb ambiwlans.



## Cynnwys

<b>Beth yw ystyr ‘amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth’? .....</b>	<b>1</b>
<b>Pryd mae’r cloc yn cychwyn a phryd mae’n stopio?.....</b>	<b>2</b>
<b>A all claf ddewis pa ysbyty y mae’n cael ei atgyfeirio ato i gael triniaeth? .....</b>	<b>3</b>
<b>Beth fydd yn digwydd os bydd yr ysbyty yn canslo apwyntiad? .....</b>	<b>4</b>
<b>Beth fydd yn digwydd os bydd claf yn colli apwyntiad a drefnwyd?.....</b>	<b>5</b>
<b>Beth os na fydd claf yn ffit i gael llawdriniaeth? .....</b>	<b>6</b>
<b>Beth os nad yw claf ar gael i gael triniaeth am resymau eraill? .....</b>	<b>7</b>
<b>Os derbynnir claf fel argyfwng, sut mae hyn yn effeithio ar y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth?.....</b>	<b>8</b>
<b>A all claf dderbyn rhan o’i ofal yn breifat? Sut mae hyn yn effeithio ar amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth? .....</b>	<b>9</b>
<b>Rhagor o wybodaeth: .....</b>	<b>10</b>

## Beth yw ystyr ‘amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth’?

Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yw cyfanswm yr amser sy’n rhaid aros o atgyfeiriad (er enghraifft, gan feddyg teulu) i’r ysbyty i gael triniaeth yn GIG Cymru. Mae’n cynnwys yr amser yn aros am unrhyw apwyntiadau ysbyty, profion penodedig, sganiau neu driniaethau eraill a allai fod yn angenrheidiol cyn cael triniaeth.

Y targed aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn GIG Cymru ar hyn o bryd yw:

- dylai 95 y cant o gleifion aros am lai na 26 wythnos; ac
- ni ddylai unrhyw glaf aros yn fwy na 36 wythnos am driniaeth.

Gall claf fod ar fwy nag un llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth, h.y. gallant fod ar nifer o restrau aros gwahanol i gael triniaeth ar gyfer cyflyrau gwahanol. Mae’r **ystadegau aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth** a gyhoeddwyd yn adlewyrchu nifer y llwybrau cleifion sy’n aros, yn hytrach na nifer y cleifion unigol sy’n aros.

Mae targedau ar wahân yn bodoli ar gyfer canser. Mae ein briff ar ddangosyddion perfformiad iechyd yn darparu gwybodaeth bellach am amseroedd aros ar gyfer canser.

Nid yw nifer o lwybrau triniaeth eraill wedi’u cynnwys yn y targed aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth o 26 wythnos oherwydd eu natur arbenigol. Mae’r enghreifftiau hynny’n cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, gofal lliniarol a thriniaeth ffrwythlondeb. Mae gan rai o’r rhain dargedau amseroedd aros eu hunain. Ym mhob achos, dylai’r egwyddor o aros yr amser byrraf posibl yn unol ag angen clinigol fod yn berthnasol.

## Pryd mae'r cloc yn cychwyn a phryd mae'n stopio?

Mae'r cyfnod amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dechrau ar y dyddiad y mae'r ysbyty'n derbyn yr atgyfeiriad gan y meddyg teulu (neu glinigwr atgyfeirio arall). Mae'n dod i ben pan fydd triniaeth yn cychwyn, neu os yw arbenigwr yr ysbyty o'r farn nad oes angen triniaeth. Gallai 'triniaeth' gynnwys:

- cael eich derbyn i'r ysbyty i gael llawdriniaeth neu driniaeth;
- dechrau triniaeth lle nad oes angen aros yn yr ysbyty (er enghraifft, meddyginiaeth neu ffisiotherapi);
- dechrau'r broses ffitio ar gyfer dyfais feddygol; neu
- dechrau cyfnod o fonitro gweithredol (gwyllo ac aros).

Os bydd y claf yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â thriniaeth, bydd y cyfnod aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dod i ben.

Mae cleifion cardiaidd wedi'u cynnwys o dan y cyfnodau rhwng atgyfeirio a thriniaeth, er bod gwahaniaeth bach yn y modd y caiff y data hwn ei gasglu. O dan amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth arferol, os caiff claf ei drosglwyddo at feddyg ymgynghorol arall, mae'r cloc amser aros yn stopio a bydd llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth arall yn dechrau (mae hyn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae claf wedi'i atgyfeirio ar gyfer un cyflwr ond ei fod yn canfod wedi hynny bod ganddo gyflwr arall sy'n gofyn am driniaeth cyn y gellir delio â'r broblem gychwynnol). I gleifion ar lwybr cardiaidd, nid yw'r cloc yn stopio ac mae eu llwybr yn parhau.

## A all claf ddewis pa ysbyty y mae'n cael ei atgyfeirio ato i gael triniaeth?

Yn Lloegr, mae gan gleifion yr hawl i ddewis i ba ysbyty y bydd eu meddyg teulu yn eu hanfon. Mae hyn hefyd yn berthnasol i drigolion Cymru sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yn Lloegr. O dan **drefniadau** newydd, gall preswylwyr o Loegr sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru ddewis a ydynt am gael eu triniaeth yng Nghymru, ynteu gael eu trin mewn ysbyty yn Lloegr o'u dewis.

Nid yw'r GIG yng Nghymru yn gweithredu system o roi dewis i gleifion, ond mae'n ceisio darparu gwasanaethau yn agos at gartref y claf pan fo hynny'n bosibl. Nid oes gan drigolion Cymru sydd â meddyg teulu yng Nghymru hawl statudol i ddewis pa ysbyty y byddant yn cael eu hanfon iddo. Mae gan fyrddau iechyd Cymru opsiwn i atgyfeirio cleifion y tu allan i'w hardal eu hunain, gan gynnwys Lloegr, os nad yw'r gwasanaeth hwnnw'n bodoli'n lleol, neu os yw angen clinigol ac amgylchiadau'r claf yn cyfiawnhau hynny.

## Beth fydd yn digwydd os bydd yr ysbyty yn canslo apwyntiad?

Os bydd ysbyty yn canslo apwyntiad (ac nad yw'n gwneud hynny am resymau clinigol) dylai'r ysbyty geisio aildrefnu'r apwyntiad cyn gynted â phosibl. Bydd y cloc amser aros yn parhau i gyfrif.

Os bydd llawdriniaeth yn cael ei gohirio gan yr ysbyty ar fwy nag un achlysur gyda llai nag wyth diwrnod o rybudd (ac nid am resymau clinigol), dylid aildrefnu'r llawdriniaeth o fewn 14 diwrnod neu cyn gynted ag sy'n gyfleus i'r claf.

Nid oes gan gleifion hawl i fynnu triniaeth yn rhywle arall os yw ysbyty yn gohirio eu llawdriniaeth.

## Beth fydd yn digwydd os bydd claf yn colli apwyntiad a drefnwyd?

Os na fydd claf yn mynd i apwyntiad y cytunwyd arno ar y cyd heb roi rhybudd, caiff ei nodi fel 'ni ddaethant' (DNA - "did not attend") a gellir tynnu'r claf oddi ar y rhestr aros. Fodd bynnag, os yw'r meddyg teulu sy'n gyfrifol am y claf o'r farn, am resymau clinigol, na ddylid tynnu'r claf oddi ar y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar ôl peidio â dod i'r apwyntiad (DNA), gall y claf aros ar y rhestr aros a bydd ei gloc yn cael ei ailosod.

Os yw claf yn rhoi rhybudd ymlaen llaw nad yw'n gallu dod i apwyntiad y cytunwyd arno, bydd yn cael ei nodi fel 'methu â dod' (CNA - "could not attend"). Bydd y claf yn aros ar y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth a bydd ei gloc yn cael ei ailosod. Gellir trin ail CNA yn yr un modd â DNA, h.y. gellid tynnu'r claf oddi ar y rhestr aros.

## Beth os na fydd claf yn ffit i gael llawdriniaeth?

Os na fydd claf ar gael ar gyfer llawdriniaeth oherwydd salwch byrdymor (er enghraifft, annwyd) y disgwylir iddo wella o fewn 21 diwrnod, yna dylent aros ar y rhestr aros a gellir gwneud addasiad (hyd at 21 diwrnod) i'r cloc amser aros.

Os nad yw claf ar gael ar gyfer llawdriniaeth oherwydd salwch y mae'n annhebygol o wella ohono o fewn 21 diwrnod, gellir ei dynnu oddi ar y rhestr aros a dychwelyd at y clinigwr atgyfeirio i gael triniaeth am y salwch hwnnw. Unwaith y bydd y claf yn ffit i gael llawdriniaeth, dylid ei atgyfeirio eto a dylai ymuno â'r rhestr aros ar y cyfnod mwyaf priodol yn glinigol. Er y byddai hyn yn cychwyn llwybr newydd, mae disgwyl i fyrddau iechyd ystyried yr amser a arhoswyd yn flaenorol wrth flaenoriaethu cleifion am driniaeth.

Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw y dylai cleifion ond fod ar restr aros ond os ydyn nhw'n ffit i gael llawdriniaeth.

## Beth os nad yw claf ar gael i gael triniaeth am resymau eraill?

Os nad yw claf ar gael oherwydd rhesymau cymdeithasol (er enghraifft cyfrifoldebau gofalu neu wyliau) am gyfnod hyd at wyth wythnos, gallant aros ar y rhestr aros a gellir gwneud addasiad i'r cloc rhwng atgyfeirio a thriniaeth (oni bai bod y cyfnod nad yw ar gael yn llai na phythefnos ac os felly ni wneir unrhyw addasiad). Os nad yw'r claf ar gael am fwy nag wyth wythnos, yna bydd y cloc yn stopio a gellir tynnu'r claf oddi ar y rhestr aros a dychwelyd at y clinigwr atgyfeirio, os bydd eu meddyg ymgynghorol yn cytuno ar hynny.

## Os derbynnir claf fel argyfwng, sut mae hyn yn effeithio ar y llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth?

Mae'r rheolau ynghylch amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ond yn berthnasol i lwybrau dewisiol ("elective"), ac felly ni fydd unrhyw un sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty fel argyfwng yn dod o dan yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Fodd bynnag, gellir cychwyn llwybr newydd rhwng atgyfeirio a thriniaeth drwy argyfwng, h.y. gall y gofal y mae claf yn ei dderbyn fel argyfwng ddangos anghenion triniaeth pellach a fyddai'n dod o dan amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

Os derbynnir claf ar lwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth cyfredol fel argyfwng a'i fod yn cael ei drin am y cyflwr, bydd y llwybr aros yn ystod eu hargyfwng yn parhau, bydd y cyfnod aros yn dod i ben.

Os derbynnir claf ar lwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth cyfredol fel argyfwng, ond na chaiff ei drin am y cyflwr hwnnw yn ystod eu hargyfwng, bydd y cloc yn parhau.

## A all claf dderbyn rhan o'i ofal yn breifat? Sut mae hyn yn effeithio ar amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth?

Gall cleifion sydd â hawl i gael triniaeth a ariennir gan y GIG optio i mewn neu allan o ofal y GIG unrhyw bryd.

Os bydd claf yn cael ei weld yn wreiddiol yn y GIG ac yn dewis cael cam(au) nesaf ei driniaeth yn breifat (h.y. y tu allan i'r GIG) bydd yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn stopio.

Gall cleifion sydd wedi cael ymgynghoriad preifat (er enghraifft ar gyfer archwiliadau/diagnosis) drosglwyddo i'r GIG i gael unrhyw driniaeth ddilynol. Dylent fynd ar restr aros y GIG yn yr un safle â phe bai eu hymgyngoriad gwreiddiol wedi bod gyda'r GIG, h.y. dylid pennu eu blaenoriaeth ar y rhestr aros yn ôl yr un meini prawf ag sy'n gymwys i bob atgyfeiriad arall. Bydd dod ar restr aros y GIG yn dechrau llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth 26 wythnos newydd.

Mewn sefyllfaoedd lle bydd claf yn cael ei atgyfeirio gan sefydliad y GIG at ddarparwr preifat fel rhan o'i lwybr GIG, bydd y cloc yn parhau i gyfrif.

## Rhagor o wybodaeth:

- Dogfen 'safbwynt y claf' GIG Cymru – RTT: What is it? What do I need to know? (PDF 297KB) (Ebrill 2017) (Saesneg yn unig)
- StatsCymru, Atgyfeiriad am driniaeth
- Interface between NHS and private treatment: a practical guide for doctors in England, Wales and Northern Ireland (Mai 2009) (Saesneg yn unig)
- Beth yw'r newyddion diweddaraf o ran gofal iechyd trawsffiniol? (Ebrill 2019)
- Pryderon y GIG. Yn cynnwys gwybodaeth am dîm pryderon pob bwrdd iechyd, a phroses gwynion ffurfiol GIG Cymru 'Gweithio i wella'.